

Dyddiad cyhoeddi: 27 Ebrill 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

1. Faint o gyfrifon sy'n cael eu blocio ar hyn o bryd gan eich cyfrif Twitter @tfwrail?

Mae saith cyfrif wedi'u blocio.

2. Rhowch restr lawn o'r holl gyfrifon hyn sydd wedi'u blocio ar hyn o bryd gan eich cyfrif Twitter @tfwrail.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan Adran 2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r esemptiad hwn yn cynnwys data personol trydydd partion pan fyddai cydymffurfio â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf yn torri unrhyw un o egwyddorion GDPR y DU. Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn byw sy'n cael ei adnabod neu mae modd ei adnabod. Ystyr 'unigolyn byw y gellir ei adnabod' yw unigolyn byw y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at - (a) dynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad neu ddynodwr ar-lein, neu - (b) un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn. Yn yr achos hwn, mae manylion y cyfrifon sydd wedi'u blocio gan gyfrif Twitter @tfwrail yn cael eu dosbarthu fel dynodwyr ar-lein.

3. Faint o gyfrifon sydd wedi eu mudo ar hyn o bryd gan eich cyfrif Twitter @tfwrail?

Mae pum cyfrif wedi'u mudo.

4. Rhowch restr lawn o'r holl gyfrifon hyn sydd wedi'u mudo ar hyn o bryd gan eich cyfrif Twitter @tfwrail.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Adran 40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, am yr un rhesymau ag a amlinellir yn ein hateb i gwestiwn 2.

5. Ydych chi'n dal i roi enwau ffug i'ch staff eu defnyddio ar Twitter fel y gwnaethoch chi yn nyddiau Trenau Arriva Cymru?

Gall staff ddewis defnyddio ffugenw.

6. Os felly, beth yw'r rheswm dros roi enwau Twitter ffug i'ch staff yn hytrach na chaniatáu iddynt ddefnyddio eu henwau go iawn?

Caiff ffugenwau eu dewis i warchod staff a sicrhau eu diogelwch.

[Parhad]

7. Os felly, sut mae'r enwau ffug hyn yn cael eu dewis? A yw eich staff yn cael dewis enw ffug iddyn nhw eu hunain? Neu ydych chi'n dewis enw ffug ar eu cyfer? Oes gennych chi restr o enwau ffug rydych chi'n dewis ohonynt?

Mae'r staff yn dewis yr enwau eu hunain. Mae enwau byr yn well er mwyn caniatáu defnyddio mwy o nodau mewn atebion ar Twitter.

8. Faint o staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd i weithredu eich cyfrif Twitter?

Mae pum aelod o staff yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Twitter, Whatsapp, Facebook, LinkedIn, YouTube ac Instagram. Darperir cefnogaeth a gwasanaeth hefyd gan y Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid ehangach.

9. Ble mae'r staff sy'n rhedeg eich cyfrif Twitter wedi eu lleoli?

Oherwydd y pandemig presennol a'r cyfarwyddiadau ynghylch gweithio gartref, mae'r staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd ac mewn cartrefi ledled Cymru. Mae manylion am gyfeiriadau cartrefi wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Adran 40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, am yr un rhesymau ag a amlinellir yn ein hateb i gwestiwn 2. Mae cyfeiriad ein swyddfa ar gael ar ein gwefan.

10. A yw'r staff sy'n rhedeg eich cyfrif Twitter yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennych chi neu gan asiantaeth allanol, ac os felly, beth yw enw'r asiantaeth allanol rydych chi'n ei defnyddio?

Mae'r Tîm Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".